Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad arolygiad monitro blynyddol ar

# Ysgol Kings Monkton

## Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2018

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 30/08/2018**

# Cyd-destun

Mae Kings Monkton yn ysgol ddydd annibynnol sydd wedi'i lleoli gerllaw canol Caerdydd. Mae'r ysgol yn darparu ar gyfer 293 o ddisgyblion, rhwng 3 a 18 oed.

Mae 121 o ddisgyblion yn adran gynradd yr ysgol, gan gynnwys 27 o blant yn y dosbarth meithrin. Mae 172 o ddisgyblion yn adran uwch yr ysgol, y mae 29 ohonynt yn y chweched dosbarth.

Daw disgyblion o ardal ddaearyddol fawr sy'n cynnwys Casnewydd, Torfaen, Caerffili a Bro Morgannwg, ond mae'r mwyafrif yn byw yn ardal Caerdydd.

Mae tua 40% o ddisgyblion o grwpiau lleiafrifoedd ethnig. Mae tua 14% o ddisgyblion yn siarad amrywiaeth eang o ieithoedd heblaw am Gymraeg neu Saesneg fel eu hiaith gyntaf gartref. Mae'r rhain yn cynnwys Arabeg, Mandarin, Wrdw a Ffarsi. Mae gan 45 o ddisgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig.

# Prif ganfyddiadau

### Cryfderau

Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd cynhwysol ac anogol lle y mae disgyblion yn datblygu agweddau cadarnhaol tuag atynt eu hunain ac at eraill.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf o'u mannau cychwyn ac yn ennill amrywiaeth eang o gymwysterau. Maent yn ymroi'n dda mewn gwersi, yn ymfalchïo yn eu gwaith ac yn gwrtais i ymwelwyr. Mae disgyblion â datganiadau o anghenion addysgol arbennig yn cyflawni'r targedau a osodir yn eu cynlluniau addysg unigol yn llwyddiannus ac yn gwneud cynnydd cryf ar y cyfan.

Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol yn nodwedd gref o'r ysgol. Mae gan yr ysgol ffocws clir ar helpu disgyblion i fod yn ddinasyddion byd-eang sy'n wybodus yn foesegol ac mae'n cynnig llawer o gyfleoedd i ddisgyblion ddysgu am amrywiaeth eang o ddiwylliannau a thraddodiadau.

Mae gan staff ddisgwyliadau uchel ar gyfer cynnydd disgyblion ac maent yn cyfleu brwdfrydedd tuag at ddysgu. Mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau dysgu ysgogol sy'n bodloni anghenion unigol disgyblion yn dda. Mae gan yr ysgol drefniadau trylwyr i nodi a chefnogi anghenion dysgu ychwanegol (ADY) disgyblion.

Mae staff ar draws yr ysgol yn rhannu ymrwymiad cryf i ddysgu proffesiynol ac maent yn elwa o gyfleoedd gwerthfawr i nodi a rhannu arfer dda. Mae hyn wedi helpu'r ysgol i wneud gwelliannau pwysig, er enghraifft i gryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) mewn amrywiaeth addas o bynciau ar draws y cwricwlwm.

Mae'r uwch dîm arwain yn cynnig arweinyddiaeth gadarn ac effeithiol i'r ysgol. Mae uwch arweinwyr wedi rhoi cylch trylwyr o weithgareddau hunanarfarnu a gwella ar waith sy'n manteisio ar dystiolaeth uniongyrchol a safbwyntiau rhieni, disgyblion a staff. Maent yn cyfleu disgwyliadau uchel i bob aelod o gymuned yr ysgol ac mae ganddynt ddealltwriaeth gywir o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella.

## Meysydd i'w datblygu

Mae'r ysgol wedi gweithredu trefniadau newydd i gryfhau llais y disgybl. Mae'r rhain yn cynnwys dull adferol i helpu disgyblion i drafod materion sydd o bryder iddynt, a strwythur o is-bwyllgorau ar gyfer y cyngor ysgol. Fodd bynnag, mae'r trefniadau hyn ond newydd gael eu rhoi ar waith ac mae'n rhy gynnar eto i farnu eu heffaith ar les disgyblion.

## Argymhellion

A1 Parhau i wreiddio'r trefniadau newydd i gryfhau llais y disgybl

## Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o nodyn ymweliad neu adroddiad arolygiad blaenorol

**Argymhelliad 1: Darparu cyfeiriad clir ar gyfer rôl y cydlynwyr llythrennedd a rhifedd**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae'r ysgol wedi cyflwyno tîm medrau i gryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer medrau ar draws y cwricwlwm. Mae pennaeth cynorthwyol yn rheoli'r tîm, sy'n cynnwys y cydlynwyr llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol. Mae pob aelod o'r tîm yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau yn glir fel cydlynwyr. Mae cynlluniau gweithredu manwl ar gyfer y tîm medrau yn cynnig dull â ffocws o wella cydlyniad y medrau hyn ar draws yr ysgol. Mae'r tîm wedi mapio cyfleoedd i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol ar draws pob grŵp oedran a maes pwnc.

Mae cynllunio fesul tymor yr athrawon yn cynnwys ffocws clir ar ddilyniant medrau. Mae athrawon yn olrhain a monitro cynnydd disgyblion yn y medrau hyn yn rheolaidd.

**Argymhelliad 2: Gwella cynllunio addysg bersonol a chymdeithasol i ddarparu mwy o fanylion am yr hyn a gyflwynir ym mhob cyfnod allweddol**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae'r ysgol wedi cryfhau cydlyniad ac arweinyddiaeth addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) ac mae wedi rhoi trefniadau newydd ar waith i ddisgyblion ddatblygu medrau personol a chymdeithasol pwysig. Mae athrawon wedi cael hyfforddiant priodol i gyflwyno agweddau ar y cwricwlwm ABCh sy'n cysylltu â'u meysydd pwnc.

Mae'r ysgol wedi datblygu cynlluniau manwl ar gyfer cyflwyno ABCh, gan gynnwys cyfres gynhwysfawr o bolisïau a chynlluniau tymor canol ar gyfer y pwnc. Mae'r cynlluniau hyn yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion fynd yn ôl at agweddau pwysig mewn pynciau ar draws y cwricwlwm wrth iddynt symud ymlaen drwy'r ysgol.

## Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

**Safon 1:  Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

**Safon 2:  Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

**Safon 3:  Lles, iechyd a diogelwch disgyblion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

**Safon 4:  Addasrwydd perchnogion a staff**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 4.

**Safon 5:  Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

**Safon 6:  Darparu gwybodaeth**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 6.

**Safon 7:  Y modd yr eir i'r afael â chwynion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

## Argymhelliad ynghylch cofrestru

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, gallai Cynulliad Cenedlaethol Cymru ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad monitro blynyddol hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Gwybodaeth am yr ysgol

| | |
|---|---|
| **Ysgol** | Ysgol Kings Monkton |
| **Rhif yr ysgol** | 6816014 |
| **Diben yr ymweliad** | Arolygiad monitro blynyddol |
| **Dyddiad yr ymweliad** | 27/06/2018 |
| **Perchennog** | Heathfield Independent Schools |
| **Staff** | 1 pennaeth, 1 is-bennaeth, 2 bennaeth cynorthwyol, 33 athro, 1 cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol, 29 cynorthwyydd addysgu, 1 anogwr llythrennedd, 1 technegydd gwyddoniaeth |
| **Nifer y disgyblion** | 293 |
| **Darpariaeth** | Dydd |
| **Math o angen addysgol arbennig y mae'r ysgol yn darparu ar ei gyfer** | Anghenion dysgu cymedrol ac anhwylderau ar y sbectrwm awtistig |
| **Arolygiad Adran 163 diwethaf** | 04/01/2016 |
| **Arolygiad monitro blynyddol diwethaf** | 02/01/2017 |
| **Arolygiad diwethaf gan AGGCC** | 14/08/2017 |